Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Seren**

**Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen**
**Cwm-ann**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 8EP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Manually Insert Date**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Gwasanaeth y tu allan i oriau ysgol yw Clwb Seren, sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen yng Nghwm-ann, Llanbedr Pont Steffan. Cofrestrwyd y clwb ym mis Chwefror 2018. Gall ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 30 o blant rhwng tair a 12 oed. Mae'r clwb yn rhedeg sesiwn ar ôl ysgol rhwng 3:20pm a 6:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a chlwb gwyliau rhwng 8am a 6pm yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae gan y clwb fynediad i brif neuadd yr ysgol yn ogystal ag ardal awyr agored yr ysgol. Dawn Ling yw'r unigolyn cyfrifol, a hi a Lionie Mason yw'r personau â chyfrifoldeb.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Gwelsom fod y plant wrth eu bodd yng Nghlwb Seren. Cânt hwyl gyda'u ffrindiau wrth dderbyn gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r plant yn cael gofal gan staff magwrus sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r rhieni'n hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir.

### 2. Gwelliannau

Gwelsom ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru, a oedd yn rhoi darlun mwy cywir o'r gwasanaeth a gynigir.
Gwlsom hefyd gopi o dystysgrif gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a phrawf o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.
Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym hefyd y bydd person â chyfrifoldeb arall yn ymuno â'r gwasanaeth.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rhoddwyd gwybod i'r darparwr am achos o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r datganiad o ddiben am nad oedd yn cynnwys yr oriau agor, yr arferion na'r wybodaeth bresennol o ran adolygu a diweddaru'r datganiad o ddiben a rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r gwasanaeth.

Gwnaethom hefyd argymhellion mewn perthynas â'r pedair thema. Mae manylion y rhain yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y clwb. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau mynd i'r clwb, chwarae gyda'u ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis lliwio, tynnu llun a chwarae gemau. Fodd bynnag, gellid datblygu rhagor o gyfleoedd i helpu’r plant i ddod yn fwy annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r oedolion sy'n gofalu am y plant yn gwrando arnynt ac mae'r plant yn gwybod y caiff eu ceisiadau eu bodloni. Maent yn cael dewis eu gweithgareddau a gwneud penderfyniadau am yr hyn maent yn ei wneud pan fyddant yn cyrraedd y clwb.

Yn ystod amser byrbryd, cafodd y plant ddewis o frechdanau jam, clementin a banana. Dywedodd rhai o’r plant nad oeddent yn hoffi jam a chynigwyd brechdanau caws iddynt fel dewis amgen. Roedd y plant yn cael cynnig dŵr i'w yfed. Roedd y plant yn sgwrsio’n hapus gyda’r staff am ba fwydydd roeddent yn eu hoffi a pha fwydydd nad oeddent yn eu hoffi. Dywedodd un plentyn ei fod eisiau bara heb fenyn, a chafodd hyn ei gydnabod. Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael i’r plant ddewis ohonynt yn ystod ein hymweliad, gan gynnwys Lego, lliwio, chwarae byd bach a gemau bwrdd. Roedd y plant yn gwneud dewisiadau ac yn penderfynu beth roeddent am ei wneud. Dywedodd un plentyn, “Fi moen neud un o rheina” a phwyntio at y bwrdd â lluniau a chreonau. Clywsom y staff yn gofyn i’r plant sawl gwaith “What would you like to do now?”. Wrth olchi dwylo, dywedodd un plentyn nad oedd hi’n hoffi’r sychwr dwylo. Roedd y staff yn cydnabod hyn. “You don’t have to dry your hands there” a rhoddwyd tywel papur iddi. Cymerodd bob plentyn ran mewn rhyw fath o weithgaredd gan chwarae ochr yn ochr â phlant o bob oedran neu gyda phlant o bob oedran. Ar ôl cael byrbryd, arweiniodd y staff weithgaredd corfforol a oedd yn cynnwys pasio pêl a chasglu conau plastig. Dywedodd un plentyn yn glir nad oedd am gymryd rhan. Cafodd ei dymuniad ei barchu ac roedd hi’n cael dewis ble i chwarae.

Caiff llais y plant ei werthfawrogi.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi ymlacio, ac maent yn meithrin cyfeillgarwch.

Gwelsom y plant yn gwenu, yn chwerthin ac yn sgwrsio â'u ffrindiau a’r staff. Roedd y plant yn gwybod â phwy y gallent siarad os oeddent yn teimlo'n drist a dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y clwb. Roedd y plant yn hapus ac wedi ymlacio yn ystod y sesiwn.

Roedd y plant yn ddigon hyderus i sgwrsio wrth gwblhau holiaduron, ac roeddent yn hapus i drafod eu teimladau am y clwb ar ôl ysgol. Gwenodd y plant mewn ymateb i ganmoliaeth am eu hymdrechion wrth iddynt dynnu lluniau a cheisio llunio'r llythrennau yn eu henwau yn annibynnol. Aeth un plentyn at aelod o'r staff a rhoddodd gwtsh iddi. Roedd y plant yn ddigon hyderus i ofyn i aelodau'r staff a allent gadw eu modelau Lego a gwnaeth y staff gydnabod hyn. Roedd y plant yn mynd i'r clwb o'r ysgol ac roeddent yn ffrindiau. Gwelsom eu bod yn mwynhau gêm o gerfluniau cerddol, a gêm a oedd yn cynnwys casglu conau plastig. Yn ystod ein hymweliad, dywedodd un plentyn "I don't want to go." pan ddaeth ei rhiant i'w casglu.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn maent hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Roedd y plant yn cydchwarae ac yn chwarae gyda'i gilydd mewn ffordd garedig a chydweithredol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac oedolion.

Gwelsom y plant yn chwarae yn gydweithredol drwy sesiwn y clwb, yn enwedig wrth iddynt liwio lluniau, gan rannu'r pensiliau lliw ac wrth iddynt rannu'r teganau 'knex connective', "You can have this green one." Roedd y plant yn sgwrsio'n hapus gyda'i gilydd wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd adeiladu â Lego, ac roeddent yn rhyngweithio'n dda wrth iddynt drafod eu modelau. Roedd y plant yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac wedi meithrin cyfeillgarwch cadarnhaol. Gwelsom y plant yn rhannu'r bwyd chwarae rôl, gan roi gwahanol fathau o fwyd i'w gilydd. Clywsom un plentyn yn dweud "Ma da fi bauble gwallt yn bag fi. Gei di neud gwallt fi." Roedd y plant i gyd yn rhoi gwybod i'r staff pan roedd angen iddynt ddefnyddio'r toiledau.

Mae'r plant yng Nghlwb Seren yn rhyngweithio'n dda iawn â'i gilydd a'r staff.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn chwarae wedi'i arwain ganddynt eu hunain yn y clwb hwn ac yn dangos diddordeb yn yr hyn maent yn ei wneud.

Gwelsom rai o'r plant yn mwynhau chwarae adeiladu gyda'r Lego a'r Knex, yn lliwio amrywiaeth o luniau neu'n tynnu llun ar bapur plaen tra bod eraill yn chwarae gyda'r eitemau chwarae rôl yn hamddenol. Casglodd aelod o'r staff y plant o ystafell ddosbarth benodedig cyn symud i neuadd yr ysgol. Roedd y plant yn cyfarch y staff â gwên. Cymerodd y plant ran mewn gweithgareddau cyn lleied neu gyn hired o amser ag yr hoffent, ac roeddent yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Dywedodd un plentyn wrthym, "Dwi'n hoffi bod lot o bobl i chwarae gyda." Gwelsom fod plentyn yn brysur yn chwarae ac yn ymgysylltu'n llawn â'i ddewis o weithgareddau drwy'r sesiwn. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau mynd i Glwb Seren.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Caiff y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Roedd y plant yn dangos hyder ac annibyniaeth wrth ddewis eu gweithgareddau eu hunain, megis lliwio, chwarae gemau a chwarae adeiladu gyda’r Lego, ynghŷd â chwarae creadigol gan ddefnyddio pensiliau a phapur. Fodd bynnag, nid oedd gan y plant gyfleoedd i fod yn gwbl annibynnol yn ystod amser byrbryd, gan na wnaethant arllwys eu diodydd eu hunain, helpu wrth baratoi’r brechdanau na thorri eu ffrwythau. Helpodd y plant i roi’r platiau a’r cwpanau yn yr ardal golchi llestri ar ôl cael byrbryd. Hefyd, roedd y plant yn tacluso teganau pan roeddent wedi gorffen chwarae â nhw, gyda chymorth gan y staff. Gwelsom fod plentyn yn cael ei annog i dacluso cyn amser byrbryd. Roedd y plant i gyd yn defnyddio’r toiledau’n annibynnol ac roeddent yn hyderus i roi gwybod i’r staff pan roeddent am eu defnyddio.

Gall y plant ddatblygu eu hannibyniaeth i ryw raddau.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r staff yn adnabod y plant yn eu gofal ac yn darparu awyrgylch hamddenol lle mae’r plant yn cymryd rhan yn eu dewis o chwarae.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff wedi cwblhau’r hyfforddiant angenrheidiol i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach, ac maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer y clwb.

Roedd yr aelodau o’r staff a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant a hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd y staff yn ymateb yn hyderus pan wnaethant drafod sefyllfaoedd damcaniaethol ynghylch pryderon am blentyn, ac roeddent yn gwybod i bwy y dylent roi gwybod am eu pryderon. Rhoddwyd byrbryd iachus o ffrwythau a dŵr i'w yfed i'r plant. Roedd y plant hefyd yn cael diod yn ystod y sesiwn. Roedd y plant yn golchi eu dwylo ar ôl cyrraedd y clwb, ond aethant i chwarae cyn eistedd i gael byrbryd. Dywedodd aelod o’r staff wrthym fod y plant fel arfer yn mynd yn syth at y bwrdd i gael byrbryd ar ôl golchi eu dwylo, ond ar ddiwrnod yr arolygiad roeddent yn aros i'r bwyd gyrraedd, ac o ganlyniad, aeth y plant i chwarae. Nid oedd pob aelod o’r staff yn golchi eu dwylo cyn helpu’r plant yn ystod amser byrbryd. Yn ystod ein harolygiad, nid oedd y staff yn gwisgo ffedogau na menig wrth baratoi’r byrbryd. Roedd y staff yn effeithlon o ran cadw’r plant yn ddiogel drwy eu hatgoffa bod angen eistedd yn daclus a bod yn ofalus wrth iddynt chwarae ar y llwyfan perfformio, “Be careful you don’t fall okay?”. Yn ystod yr ymweliad, roedd un plentyn wedi brifo ei fraich. Ymatebodd y staff drwy edrych ar ei fraich a gwneud cofnod o’r ddamwain ar unwaith. Roedd y staff yn ymateb yn rhagweithiol i ddŵr a oedd wedi’i arllwys ar y llawr. Gosodwyd arwydd i ddangos bod y llawr yn llithrig yn yr ardal, a chafodd y dŵr ei sychu ar unwaith. Roedd y staff yn rhoi gwybod i’r plant am y risg bosibl hefyd, “Watcha, ma’r llawr yn wlyb ok?”.

Gan amlaf, mae'r staff yn effeithlon wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn atgoffa'r plant i ryngweithio'n briodol ac mae eu dull gweithredu yn gyson.

Gwelsom fod y staff yn canmol ymddygiad da a chyflawniadau yn rheolaidd, er enghraifft, lluniodd blentyn y lythyren M yn gywir yn ei enw, “That is a really good M” a “Good boy. Diolch yn fawr” wrth i blentyn helpu i dacluso’r teganau. Gwnaeth y staff fodelu ymddygiad disgwyliedig drwy siarad â'i gilydd a'r plant yn garedig yn ogystal â hyrwyddo trafodaeth agored yn ystod gweithgareddau ac amser byrbryd. Gwelsom y staff yn annog y plant i fod yn ofalus ac i ymddwyn yn dda pan roeddent yn rhedeg o gwmpas y neuadd, “You need to be careful.” Roedd y staff yn annog y plant i rannu a bod angen bod yn garedig drwy’r amser, ac roeddent yn rhoi canllawiau clir i’r plant, “How about we share and play

together?”. Roedd un plentyn wedi cynhyrfu yn ystod ein hymweliad, am fod plentyn arall wedi mynd â’i fodel Lego.  Ymatebodd y staff ar unwaith, gan ofyn i’r plentyn ddychwelyd y model, a rhoi sicrwydd a chysuro’r plentyn a oedd wedi cynhyrfu drwy roi cwtsh iddo.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae’r staff yn caniatáu i’r plant arwain eu chwarae hunain ac maent yn ymatebol wrth roi cymorth ychwanegol pan fo angen.

Gwelsom fod y staff yn adnabod y plant ac yn ymwybodol o’u dewisiadau. Roedd y staff yn helpu i ddatblygu iaith y plant yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â’u sgiliau cymdeithasol, drwy sgwrsio â nhw yn ystod amser byrbryd ac amser chwarae am eu diddordebau, eu bywyd yn yr ysgol a’u bywyd cartref. Clywsom aelod o’r staff yn trafod lliwiau wrth i’r plant gymryd rhan mewn gweithgaredd gyda’r Lego, “What’s your favourite colour?”. Roedd aelod arall o’r staff yn dilyn diddordeb plentyn nad oedd am gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn rhedeg o amgylch conau, ac eisteddodd i liwio llun gyda’r plentyn, “It’s okay, you don’t have to. What would you like to do?”. Yn ystod gweithgaredd pen bwrdd, helpodd aelod o’r staff blentyn wrth ffurfio llythrennau drwy fodelu’r ffordd gywir o ffurfio’r llythyren ac annog y plant i’w wneud yn annibynnol, “Shall we do your name? Would you like me to help you? I’ll do it first and you watch. Do you think you can do it? Have a go.” Ni welsom unrhyw gyfleoedd i fynd allan yn yr arwyr agored yn ystod yr ymweliad oherwydd yr adeg o’r flwyddyn a’i bod yn tywyllu’n gynnar. Fodd bynnag, dywedodd y staff a’r plant wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i ddefnyddio’r ardal awyr agored, a gwelsom ffotograffau yn dangos y plant yn chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn hybu chwarae’r plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r staff yn darparu amgylchedd diogel, glân ac sydd mewn cyflwr da i'r plant. Mae gan blant gyfleoedd i chwarae dan do ac yn yr awyr agored.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y neuadd lle roedd y plant yn cael gofal yn lân. Ni welsom unrhyw unrhyw beryglon mawr yn ystod yr ymweliad. Fodd bynnag, roedd y switsh dŵr poeth ar foeler y peiriant dŵr yn ardal y gegin wedi'i droi ymlaen. Rhoddwyd gwybod i'r clwb am y perygl posibl hwn yn ystod yr arolygiad. Nid oedd hyn yn peri risg mawr i'r plant, gan fod aelod o'r staff ger yr ardal pan roedd y plant yn mynd at y sinc gyda'u platiau a'u cwpanau ar ôl cael byrbryd. Roedd angen defnyddio ffob allweddol ar y drysau i gael mynediad ac roedd yn ofynnol i ymwelwyr aros yn ardal allanol y neuadd. Gofynnwyd i ni lofnodi wrth gyrraedd a gadael yn ystod ein hymweliad, yn nerbynfa'r ysgol a'r clwb y tu allan i oriau ysgol. Roedd asesiadau risg ar waith dan do ac yn yr awyr agored; ond nid oedd asesiad risg ar gael ar gyfer gweithgareddau megis coginio. Gwelsom ffotograffau'n dangos bod cylch trydanol yn cael ei ddefnyddio yn ystod gweithgareddau coginio, ac nid oedd asesiad risg ar waith ar gyfer hwn. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd. Roedd y rhain yn cael eu cofnodi'n glir ac yn cynnwys y dyddiad; ond nid oeddent yn cynnwys nifer y staff a oedd yn bresennol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r ystafell yn lân ac mewn cyflwr da.

Roedd byrddau a chadeiriau yn yr ystafell. Roedd y plant yn rhydd i ddewis gweithgareddau drwy'r sesiwn ac yn gofyn i'r staff i ddefnyddio rhagor o adnoddau yn y storfa. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn chwarae ar dir yr ysgol yn yr awyr agored weithiau. Roedd gan y neuadd doiledau gwryw a benyw ar wahân a oedd yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo, ac roedd cegin ac ardal storio adnoddau'r clwb. Fodd bynnag, nid oedd ardal benodol i'r plant gael gorffwys ac ymlacio, os y dymunent.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar y cyfan.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o offer ac adnoddau o ansawdd da a'r gael i'r plant.

Roedd amrywiaeth dda o deganau a gemau ar gael i'r plant dan do. Er enghraifft, gwelsom y plant yn chwarae gyda Lego, deunyddiau lliwio, bwyd chwarae rôl, Knex, cardiau chwarae ac adnoddau addysg gorfforol, megis conau plastig. Roedd adnoddau eraill ar gael ac roedd y rhain wedi’i storio mewn storfa. Gofynnodd y plant i’r oedolion a allent ddefnyddio rhagor o adnoddau.  Roedd yr adnoddau mewn cyflwr da ac roedd digon o ddewis ar gyfer ystod oedran y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da. Roedd dodrefn, megis byrddau a chadeiriau, ar gael i’r plant. Roedd y teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau ac offer o ansawdd da ar gael.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae’r arweinwyr wedi llunio ethos cadarnhaol ac wedi meithrin cydberthnasau effeithiol â’r rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol ar y cyfan. Mae gan y gwasanaeth ethos sy'n gwerthfawrogi'r plant ac mae eu hanghenion yn greiddiol i'r ddarpariaeth.

Mae’r datganiad o ddiben yn cynnwys y rhan fwyaf o’r wybodaeth berthnasol, ond nid oedd y oriau agor yn adlewyrchu oriau agor y clwb yn gywir ac nid oedd yn cynnwys arferion y clwb ar ôl ysgol na’r clwb gwyliau. Doedd dim cyfeiriad at adolygu na diweddaru’r datganiad o ddiben na rhoi gwybod i AGC am unrhyw newidiadau i’r gwasanaeth. Gwelsom ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru yn dilyn yr ymweliad, a nododd yr oriau agor cywir, ond roedd angen rhagor o welliannau mewn perthynas ag arferion ac adolygu'r datganiad o ddiben. Gwelsom ffeil gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau, ond roedd rhai’n cynnwys dyddiadau ac eraill ddim. Gwelsom hefyd fod rhai polisïau’n nodi dyddiad adolygu, sef mis Gorffennaf 2018 a mis Hydref 2018, ac nid oedd y rhain wedi’u diweddaru i ddangos eu bod wedi cael eu hadolygu ar y dyddiadau hynny. Roedd y tîm o staff yn gweithio’n dda gyda’i gilydd ac roeddent yn gyfarwydd iawn â’u tasgau penodedig. Clywsom gyfathrebu da rhwng aelodau’r staff drwy’r arolygiad, gan nodi’r hyn roeddent am ei wneud nesaf ac roedd hyn yn sicrhau eu bod yn gweithio fel tîm yn effeithiol. Roedd yr arweinydd wedi sicrhau bod cymharebau’r staff yn gywir. Ar ddiwrnod yr ymweliad, nid oedd y person â gofal yn bresennol a phan ofynnwyd i’r staff pwy oedd â chyfrifoldeb, roeddent yn ansicr. Ers hynny, mae person â chyfrifoldeb arall wedi ymuno â’r gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a bod y ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gael. Gwelsom ffeiliau’r plant a’i bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, ond roedd cofnodion brodyr a chwiorydd yn cael eu cofnodi yn yr un cofnodion, yn hytrach na llunio cofnodion unigol. Gwelsom awyrgylch cadarnhaol ac ymlaciol yn ystod ein hymweliad.

Mae'r arweinyddiaeth yn rhesymol yn y gwasanaeth hwn.

### 5.1 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Caiff safbwyntiau'r plant eu hystyried ar hyn o bryd wrth gynllunio i ddatblygu'r gwasanaeth, ac mae awydd i wella'r gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym nad oeddent wedi dechrau casglu safbwyntiau'r rhieni, y staff na'r plant hyd yma, ond roeddent yn casglu safbwyntiau'r plant yn ystod y sesiwn drwy drafod gyda nhw am beth roeddent am ei wneud, ac roeddent yn sicrhau y caiff hwn ei roi ar waith

wrth gynllunio gweithgareddau . Gwelsom hwn ar waith yn ystod ein hymweliad. Gwnaethom drafod gofynion yr adroddiad ar ansawdd gofal gyda'r staff, a oedd yn dangos dealltwriaeth o'r gofyniad i gynnwys safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff.

Mae hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn cael ei ddatblygu.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff cymharebau staffio eu cynnal. Mae cynluniau wrth gefn ar waith.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y nifer gywir o staff ar ddyletswydd bob dydd. Roedd hyn yn amlwg yn ystod yr ymweliad. Roedd sesiynau goruchwylio ac arfarniadau ar waith; ond nid oedd ffeiliau'r staff yn dangos yn glir bod y rhain ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Gwelsom ffeiliau tri aelod o'r staff a gwelsom nad oedd un ffeil yn cynnwys gwybodaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ond cawsom wybodaeth DBS yn ystod yr ymweliad canlynol. Dywedodd y staff wrthym fod yr arweinydd yn eu cefnogi'n dda, a'u bod yn mwynhau gweithio yn y clwb yn fawr.

Mae'r ffordd y mae'r staff a'r adnoddau yn cael eu rheoli yn ddigonol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae cydberthnasau da rhwng yr arweinwyr a'r rhieni.

Gwelsom fod trafodaeth hwyliog rhwng y rhieni a'r staff wrth iddynt gasglu eu plant. Gwnaethom siarad â rhieni / gofalwyr a gwnaeth pob un ohonynt roi adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth, gan nodi fod eu plant yn mwynhau dod i Glwb Seren. Dywedodd un rhiant wrthym “Bydde ni ar goll hebddo nhw.” Derbyniwyd holiadur rhieni cadarnhaol, “I find the after school club excellent. The staff are always friendly and approachable. I would be lost without this service.” Cafwyd bod y cydberthnasau rhwng y staff a'r plant yn gadarn ac yn gryf ac roedd cydberthynas gadarnhaol rhwng y clwb a'r ysgol ehangach.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau da â'r rhieni.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim, gan mai hwn oedd yr Arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y canlynol:

- dylid gwella arferion hylendid;
- dylai'r staff annog y plant i fod yn fwy annibynnol;
- dylai'r staff annog cwrteisi;
- dylai'r arweinydd ddatblygu asesiad risg ar gyfer gweithgareddau;
- dylid datblygu cofnodion ymarferion tân i gynnwys nifer y staff sy'n bresennol;
- dylai'r staff greu ardal i'r plant gael ymlacio;
- dylai'r staff sicrhau bod tap dŵr poeth y boeler wedi'i ddiffodd yn ystod y clwb;
- dylai'r arweinydd ddechrau'r broses o gasglu safbwyntiau ar gyfer yr adroddiad adolygiad o ansawdd y gofal ac anfon copi ymlaen at AGC ar ôl ei gwblhau a
- dylai'r arweinydd ddyddio ac adolygu pob polisi.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 3 Rhagfyr 2018 am gyfanswm o dair awr a chwarter;

- gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a gânt;
- gwnaethom siarad â nifer o'r plant, y staff a phum rhiant;
- cawsom holiaduron wedi'u cwblhau gan ddau blentyn a
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion, megis ffeiliau'r staff, cofrestrau, contractau, asesiadau risg, polisïau, cofnodion damweiniau/digwyddiadau a chofnodion hyfforddiant y staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Unigolyn Cyfrifol | Dawn Ling |
| Person â chyfrifoldeb | Lionie Mason<br>Dawn Ling |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 30 |
| Ystod oedran y plant | rhwng 3.5 a 12 oed |
| Oriau agor | Rhwng 3:20pm a 6:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol, a rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod gwyliau'r ysgol |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Y ddwy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei gofrestru ym mis Chwefror 2018 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 03 Rhagfyr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Ni chafwyd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws Agored.